

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4) (d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

Ystyriodd y Panel Heddlu a Throsedd Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2020/2021 yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2022.

Yr adroddiad hwn oedd adroddiad blynyddol cyntaf Mr Dunbobbin fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ers cael ei ethol ym mis Mai 2021.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y newyddion diweddaraf ar gynnydd cyffredinol yn erbyn darpariaeth blaenoriaethau strategol Cynllun yr Heddlu a Throsedd. Mae'r adroddiad wedi amlygu bod 2021/2022 wedi bod yn flwyddyn heriol arall, yn sgil effaith y pandemig a nifer o heriau eraill a wynebwyd yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd llawer wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod heriol hwn, a diolch i waith caled Swyddogion, staff a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru, roedd 2021/22 yn flwyddyn lwyddiannus arall wrth iddynt barhau i ddarparu gwasanaeth plismona rhagorol i gymunedau Gogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o'r canlynol :

- Gwaith partneriaeth effeithiol - Amlygodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru bod canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer llwyddiant fel Comisiynydd ac na fyddai wedi bod yn bosibl iddo fynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd ar ei ben ei hun, roedd gwaith partneriaeth arloesol ac effeithiol yn hanfodol ar gyfer gwneud gwahaniaeth.
- Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel - amlygodd yr adran hon y cyflawniadau allweddol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:
 - Mynd i'r afael â throseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt a'u hatal
 - Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd swyddogion a staff yr heddlu
 - Gwella diogelwch ffyrdd

- Cefnogi Dioddefwyr a Chymunedau - amlygodd yr adran hon y cyflawniadau allweddol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:
 - Mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol a'u hatal
 - Diogelu pobl ddiamddiffyn, gan gynnwys plant
 - Mynd i'r afael â seiberdroseddu a'i atal
 - Sefydlu Panel Dioddefwyr
 - Mynd i'r afael â throsteddau casineb a'u hatal
- System Cyfiawnder Troseddol Deg ac Effeithiol - roedd yr adran hon yn amlygu'r cyflawniadau allweddol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:
 - Cyflwyno Strategaeth Cyfiawnder Merched Gogledd Cymru
 - Defnyddio mwy o Gyfiawnder Adferol
 - Cefnogi a diogelu plant a phobl ifanc a'u dargyfeirio rhag cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol
 - Mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi troseddu a rhoi cefnogaeth i adsefydlu pobl sydd wedi troseddu.
- Cyllid ac Arian
- Comisiynu Gwasanaethau

Cydnabuwyd bod drafft o'r Adroddiad Blynyddol wedi'i ddsbarthu i Aelodau'r PHTh eisoes er mwyn iddynt gael rhoi eu safbwyntiau a'u sylwadau. Roedd y PHTh yn teimlo bod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

PENDERFYNWYD-

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2021/2022.